



Neges y Cadeirydd

Annwyl Aelod,

Cyn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhelir ar y 7fed o Fawrth 2019 yn Gorseland, Aberystwyth, mae'n bleser gennyf roi gwybod i chi am y pwyntiau perthnasol canlynol o'm Hadroddiad fel Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31/03/2018.

Credaf fod cynlluniau fel ein cynlluniau Gwarant Fferm a'n cynlluniau Ardystio Organig yn bwysicach nag erioed i'n haelodau ar yr adeg hon wrth i'n diwydiant wynebu dyfodol ansicr iawn. Ar adeg ysgrifennu'r crynodeb hwn ddechrau mis Chwefror, mae'r manylion sy'n ymwneud â'n hymadawiad o'r UE mor ansicr ag erioed. Beth bynnag bo'r canlyniad, rwy'n argyhoeddedig y bydd angen i'n diwydiant ddarparu tystiolaeth glir i'n cwsmeriaid, gartref a thramor, bod ein cynhyrchion yn cael eu cynhyrchu i'r safonau uchaf o ran ansawdd ac y byddant yn diwallu gofynion ein cwsmeriaid a defnyddwyr yn y dyfodol.

Mae ein holl gynlluniau ansawdd wedi'u hardystio'n annibynnol ac yn cydymffurfio â safon ISO 17065 (safon ryngwladol sy'n cael ei chydabod yn fyd-eang) ac ar y sail honno ni ddylem ofni unrhyw her oddi wrth unrhyw un yn y byd o ran safonau ac ansawdd ein cynhyrchu.

Mater arall y credaf y bydd yn bwysig iawn i'n diwydiant wrth iddo symud ymlaen, yw cofleidio technoleg ddigidol a defnyddio llwyfannau digidol fel rhan bwysig o'n busnesau.

I'r perwyl hwn, mae Cynhyrchwyr Cig Oen ag Eidion Cymru wedi buddsoddi, ac yn parhau i fuddsoddi, mewn darparu amrywiaeth o wasanaethau digidol i'n haelodau.

Byddwn yn darparu gwybodaeth hanfodol trwy'r gadwyn gyflenwi i'n cwsmeriaid yn ogystal â gwneud hi'n haws i'n haelodau i gadw cofnod o'r hyn sydd angen o ddydd i ddydd. Mae ein rhaglen ddigidol (sydd ar gael am ddim i'n haelodau ar hyn o bryd) yn cynnwys cofnodion statudol anifeiliaid, cofnodion meddygol gan gynnwys data pwysig am feddyginiaethau AMR, cynlluniau iechyd blynyddol a rheoli maetholion ar y fferm.

Ar hyn o bryd, gallwn gynnig cymorth i unrhyw aelod i gofrestru a defnyddio ein gwasanaeth Cofnodion Fferm, ac os oes gan unrhyw un ddiddordeb, cysylltwch â'n swyddfa.

Yn olaf, hoffwn eich sicrhau bod ein bwrdd a'n staff yn gweithio'n galed iawn i sicrhau y byddwn yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth a'r cymorth y byddwch eu hangen yn y cyfnod sydd i ddod.



David Bebb Evans

Cynhyrchwyr Cig Oen ag Eidion Cymru Cyf RHYBUDD O GYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Bydd y cyfarfod cyffredinol blynyddol ar gyfer aelodau yn cael ei gynnal yn Gorseland, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth SY23 2HE ar ddydd lau 7fed Mawrth 2019 am 2.00yp

Yn gywir, WG Jones, Ysgrifennydd

AGENDA

- 1 Derbyn cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol blaenorol
- 2 Derbyn adroddiad gan y Cadeirydd, Mr David Bebb Evans
- 3 Derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn oedd yn diweddu 31ain o Fawrth 2018*
- 4 Ethol cyfarwyddwyr – Mae David Bebb Evans a Dafydd Jones yn ymddeol yn eu tro ac yn gymwys i'w hail-ethol**
- 5 Cymeradwyo Whittingham Riddell fel Cyfrifwyr Adrodd

* Mae copïau o'r cyfrifon blynyddol ar gael ar wefan y gymdeithas (www.wlbp.co.uk) neu os ydych chi angen copi papur yna cysylltwch â'r swyddfa ar 01970 636688

** Os ydych chi dymuno gwneud enwbiad ar gyfer y bwrdd yna a fydddech mor garedig ag anfon enw a chyfeiriad yr aelod at: WLBP Ltd, PO Box 8, Gorseland, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth erbyn 6ed o Fawrth 2019 wedi ei arwyddo gan 6 aelod arall o Gynhyrchwyr Cig Oen ag Eidion Cymru.

Crynodeb o Gyfrifon Blynyddol WLBP Cyf (Detholiad)

Cyfrif Incwm a Gwariant 31.03.2018

	£000 2018	£000 2017
Trosiant	1257	1166
Elw Gros	114	105
Cost Gweithredu	121	81
Arian Dros Ben / (Diffyg cyn Treth)	-7	24
Llog a dderbyniwyd	1	2
Treth ar Arian Dros Ben (Diffyg)	1	-10
(Diffyg) / Arian Dros Ben am y Flwyddyn	5	16

Mantolen ar 31.03.2018

Asedau Sefydlog	97	102
Asedau Cyfredol	2318	2033
Rhwymedigaethau Cyfredol	1701	1416
Asedau Cyfredol Net	617	617
	714	719

Cyfalaf a Chronfeydd Wrth Gefn

Cyfalaf Cyfranddeiliaid	2	2
Incwm dros ben	712	717
	714	719

Awgrym: Cofnodion Meddyginiaethau

Rhaid cadw cofnod prynu a thriniaeth gyflawn ar gyfer yr holl feddyginiaethau milfeddygol a weinyddir i dda byw. Mae hyn yn galluogi monitro'r holl driniaethau da byw ac i adolygu gweithdrefnau arferol gan nodi problemau cyson.

Gweler isod enghreifftiau ysgrifenedig ac o raglen Cofnodion Fferm o gofnod prynu a defnyddio meddyginiaethau.



Medication Record - Veterinary Prescriptions & Dispensed

Date	Product	Strength	Quantity	Prescribed For	Prescribed By	Dispensed For	Dispensed By	Comments
15/02/18	Amoxicillin 500mg Tablets	500mg	100	Sheep	Dr. Jones	Sheep	Dr. Jones	For treatment of bacterial infection
15/02/18	Clarithromycin 500mg Tablets	500mg	50	Sheep	Dr. Jones	Sheep	Dr. Jones	For treatment of bacterial infection
15/02/18	Flunixin 50mg Tablets	50mg	20	Sheep	Dr. Jones	Sheep	Dr. Jones	For treatment of inflammation



Medication Record - Veterinary Administration of Medication

Date	Product	Strength	Quantity	Administered To	Administered By	Comments
15/02/18	Amoxicillin 500mg Tablets	500mg	100	Sheep	Dr. Jones	For treatment of bacterial infection
15/02/18	Clarithromycin 500mg Tablets	500mg	50	Sheep	Dr. Jones	For treatment of bacterial infection
15/02/18	Flunixin 50mg Tablets	50mg	20	Sheep	Dr. Jones	For treatment of inflammation

Defnyddio prynu a thriniaethau

Yr	Meddyginiaeth	Yn ystod y flwyddyn	Yn ystod y flwyddyn	Yn ystod y flwyddyn	Yn ystod y flwyddyn	Yn ystod y flwyddyn
2013	Amoxicillin	100	100	100	100	100
2017	Amoxicillin	100	100	100	100	100
2013	Clarithromycin	50	50	50	50	50
2017	Clarithromycin	50	50	50	50	50
2013	Flunixin	20	20	20	20	20
2017	Flunixin	20	20	20	20	20

Defnyddio prynu a thriniaethau

Yr	Meddyginiaeth	Yn ystod y flwyddyn	Yn ystod y flwyddyn	Yn ystod y flwyddyn	Yn ystod y flwyddyn	Yn ystod y flwyddyn
2013	Amoxicillin	100	100	100	100	100
2017	Amoxicillin	100	100	100	100	100
2013	Clarithromycin	50	50	50	50	50
2017	Clarithromycin	50	50	50	50	50
2013	Flunixin	20	20	20	20	20
2017	Flunixin	20	20	20	20	20

TALU AELODAETH

Mae'r rhan fwyaf o'n haelodau yn talu eu ffi aelodaeth trwy Ddebyd Uniongyrchol. I'r rhai ohonoch sydd ddim yn gwneud hyn, pan yr ydych yn danfon taliad i mewn, a fydddech chi cystal â gwneud yn siŵr fod eich gohebiaeth yn dangos yn glir eich rhif aelodaeth Fawl neu Organig yn ogystal ag enw a chyfeiriad llawn. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau nad oes camddealltwriaeth yn digwydd gall arwain at gyfnod ynghrog o ran eich aelodaeth yn deillio o ddim taliad. Os yr ydych yn dymuno talu trwy Ddebyd Uniongyrchol, gwnewch yn siŵr fod eich enw a chyfeiriad yn glir ar y ffurflen ynghyd a'ch rhif aelodaeth FAWL neu Organig.

Adolygiadau Iechyd a Lles Blynyddol

Ers y 1af o Orffennaf 2018 mae safon newydd wedi ei gyflwyno i gynllun FAWL sef yr adolygiad iechyd a lles blynyddol. Mae'n ofynnol i gwblhau'r adolygiad hwn gyda'ch milfeddyg. Hyd yn hyn mae tua 3500 o'r adolygiadau hyn wedi eu cwblhau.


Mae'r adolygiad hwn yn gyfle i gydnabod unrhyw faterion iechyd anifeiliaid sydd wedi codi o fewn y busnes dros y 12 mis diwethaf. Mae'r prif ffocws ar y defnydd o wrthfotigau â meddyginiaethau anthelmintig.

Mae'n amlwg o'r adolygiadau sydd wedi eu cwblhau bod y deunydd o feddyginiaethau anthelmintig yn ffocws pendant iawn. Mae argymhellion clir wedi eu nodi gan nifer o filfeddygon yn dynodi'r camau cywir wrth ddefnyddio'r meddyginiaethau yma.

Agwedd arall sydd wedi dod i'r amlwg ydy'r pwysigrwydd o ddefnyddio gwrthfotigau ar yr amser cywir. Prif ffocws ac argymhellion y trafodaethau ar y defnydd o wrthfotigau ydy gwella bioddiogelwch a defnyddio brechiadau fel modd o atal afiechydon.

Gweler isod ffigyrau sydd wedi cael eu cyhoeddi ym mis Ionawr eleni yn adroddiad iechyd UK One ar y defnydd o wrthfotigau mewn anifeiliaid a bodau dynol yn ystod y cyfnod rhwng 2013–2017. Noder fod gweithio yn agos gyda'ch milfeddyg yn gymorth ar gyfer defnyddio gwrthfotigau yn gyfrifol ar eich fferm ac yn gallu arwain at leihad yn y defnydd. Canlyniad hyn ydy neges gadarnhaol o fewn y diwydiant fel y gwelir o fewn yr adroddiad.

<https://www.gov.uk/government/publications/uk-one-health-report-antibiotic-use-and-antibiotic-resistance-in-animals-and-humans>



Adroddiad UK One Health 2013–2017

WLBP – Gwefannau Cymdeithasol



Dilynwch ni: @WLBProducers



Hoffwch ni: Cofnodion Fferm WLBP Farm Records



Dilynwch ni: WLBProducers

Rhaglen Cofnodion Fferm WLBP yn profi'n fanteisiol



Mae Jolyon Higgs a'i wraig Alex, Fferm Cwmfron, Tylwch, yn rhedeg menter gwartheg biff a defaid. Mae'r fferm wedi'i lleoli ar uwchdiroedd Llanidloes ac yn ymestyn o 650 troedfedd hyd at 1000 troedfedd.

Cedwir 600 o famogiaid bridio ar Fferm Cwmfron, cymysgedd o ddefaid Miwl Cymreig, defaid Mynydd Cymreig a defaid Texel. Mae Jolyon ac Alex hefyd yn cadw 20 o wartheg sugno sy'n wartheg Limousin a British Blue ac maen nhw'n cynhyrchu gwartheg croes Aberdeen Angus.

Cedwir 50 – 60 o ddefaid Miwl Cymreig ar y fferm gyda 50 o famogiaid blwydd eraill yn cael eu gwerthu ym Marchnadoedd Cymdeithas Bridwyr Defaid Miwl Cymru bob blwyddyn ym Marchnad Da Byw'r Trallwng.

Fel aelod o Gynllun Gwarant Cig Eidion a Chig Oen (FAWL), mae Jolyon ac Alex wedi manteisio ar Gofnodion Fferm ar-lein WLBP. Mae'r gallu i gadw cofnodion ar-lein ar gael yn rhad ac am ddim iddyn nhw fel rhan o'u tanysgrifiad. Ar ôl cofrestru a chreu cyfrif, mae eu dogfennau FAWL a'u dogfennau traws-gydymffurfio yn cael eu llenwi a'u cadw ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys y llyfr diadell, y gofrestr fuches a'r llyfr meddyginiaethau. Yn ôl Jolyon:

'Clywais am yr adnodd am y tro cyntaf pan es i gyfarfod cynhyrchwyr Waitrose. Rhoddodd y syniad i mi y gallwn ni leihau'r gwaith papur a chadw cofnodion mwy cywir ar-lein. Mae galwadau cynyddol gan adwerthwyr a'r llywodraeth i gadw cofnodion manwl, felly teimlwn mai peth da fyddai cael y cyfan o'r cofnodion mewn un lle.'

Mae yna hefyd ap ar gyfer y ffon sy'n gweithio ochr yn ochr â gwefan Cofnodion Fferm WLBP. Mae ap Stock Move Express yn galluogi defnyddwyr i gofnodi gwybodaeth all-lein pan fyddan nhw ar y fferm.

'Rwy'n defnyddio'r ap Stock Move Express yn bennaf. Gallaf gofnodi gwybodaeth wrth sefyll yn ymyl yr anifail. Mae'r rhaglen ar gael pob amser. Gallaf edrych am wybodaeth am driniaeth, dyddiadau tynnu'n ol (withdrawal) a chofnodion symud anifeiliaid. Mae'r cyfan ar fy ffôn.'

Mae Jolyon yn defnyddio'r adnodd i gofnodi symudiadau a'r wybodaeth honno'n cysylltu gydag EID Cymru a BCMS. Mae hefyd yn cofnodi manylion prynu a defnyddio meddyginiaethau, cofnodion mamogiaid unigol a chofrestru genedigaethau a marwolaethau.

'Trwy gofnodi triniaethau meddygol fy anifeiliaid, gallaf gadw hanes mamogiaid unigol. Mae'n fy helpu i reoli fy niadell yn well oherwydd gallaf ddedol yr anifeiliaid sy'n fwy tueddol o gael clefydau'n rheolaidd. Gyda'r cysylltiad gydag EID Cymru, gallaf storio fy holl drwyddedau symud mewn un lle a gallaf eu hanfon yn uniongyrchol atyn nhw.'



Mae Jolyon yn gweld manteision mawr wrth gadw ei gofnodion fferm ar gyfrifiadur. Mae'n edrych ymlaen at ehangu'r defnydd y mae'n ei wneud o'r adnodd ymhellach er mwyn cyfrannu at reoli'r fferm yn fwy effeithiol.

Os ydych yn aelod o FAWL ac eisiau rhagor o wybodaeth ar adnodd Cofnodion Fferm WLBP, ewch i'n gwefan:

<https://farmrecords.wlbp.co.uk>

neu cysylltwch â swyddfa FAWL ar 01970 636688 i siarad gyda'n Cydlynwyr Cofnodion Fferm:

Llyr Lewis: 07741 549270, LlyrL@wlbp.co.uk
Sion Ifans: sionifans@wlbp.co.uk

£5m i helpu i gael gwared ar y clafr

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, wedi cyhoeddi y bydd £5m sydd ar gael drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn cael ei ddefnyddio i helpu i gael gwared ar y clafr.

Mae'r cyllid ar gael i ddarparu prosiect dan arweiniad y diwydiant i fynd i'r afael â'r clefyd yng Nghymru. Mae'r cyhoeddiad yn dilyn cynnig gan y diwydiant i ddileu'r clafr o Gymru.

Bydd manylion pellach am y prosiect yn cael eu cyhoeddi yn y misoedd nesaf yn dilyn trafodaethau parhaus gyda chynrychiolwyr y diwydiant.

Wrth gyhoeddi'r cyllid, dywedodd y Gweinidog: "Mae'r clafr yn cael effaith economaidd sylweddol ar gynhyrchwyr defaid, ac mae'n fater lles anifeiliaid o bwys yn achos defaid. Mae'n un o'r clefydau mwyaf heintus i ddefaid yng Nghymru ac mae ei ddileu yn flaenoriaeth i ni ac i'r diwydiant. Rwy'n falch o gyhoeddi y bydd £5m o gyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig yn cael ei ddefnyddio i helpu'r diwydiant fynd i'r afael â'r clefyd. Bydd dileu'r clefyd yn golygu y bydd posibilrwydd o sicrhau manteision economaidd hirdymor sylweddol i'r sector yn ystod cyfnod heriol iawn wrth i ni baratoi i adael â'r Undeb Ewropeaidd."

PWYSIG – Gohebiaeth Organig

O'r 28/2/2019 ni fyddwn yn gallu danfon copiâu ar e-bost o Dystysgrifau ac Atodlenni yn uniongyrchol i'ch cyfiri RPW ar eich rhan. O'r dyddiad hwn mi fydd RPW ond yn derbyn copiâu electronig fydd wedi ei uwchlwytho yn uniongyrchol o'ch cyfiri RPW chi. Fe allwn ddanfon copiâu electronig o'ch Tystysgrifau neu Atodlenni i chi ar e-bost os ydych yn dymuno.



Byddwch yn barod ar gyfer Archwiliad Organig:

I'w cwblhau cyn yr archwiliad:

- Cwblhau'r holiadur archwiliad blynyddol.
- Gwneud yn siŵr fod yr amserlen maes sy'n gysylltiedig â'r holiadur archwiliad yn gywir. Cofiwch ddangos unrhyw newidiadau sydd wedi bod.

Pethau i'w cael yn barod ar gyfer yr archwiliad:

- Os bydd unrhyw rif cae yn newid yna bydd rhaid cyflwyno map diweddar o'r daliad.
- Cofnodion maes gan gynnwys yr holl fewnbynnau a'r allbynnau.
- Cynllun rheoli tail a Thaflen Gofnodi 02 wedi'u cwblhau.
- Wedi gwneud cais am randdirymiad (derogation) ers yr archwiliad olaf.
- Cynllun amddiffyn cynefinoedd.
- Cofnodion prynu a gwerthu: derbynebaw ac anfonebau.
- Labeli – bwydydd, hadau ... ac ati.
- Cofnodion bwydydd anifeiliaid ar gyfer pob grwp bwydo wedi eu diweddarau (gan gynnwys cofnodau pori a bwyddydd porthiant).
- Cofnodion meddygaeth – cofnodion prynu a thriniaethau.
- Cynllun iechyd anifeiliaid.
- Cofnodion – Symudiadau stoc, genedigaethau a marwolaethau stoc.
- Tystysgrifau ar gyfer porwyr a thir ar rent.
- Prynant stoc organig – dogfennau trosglwyddo a chopïau o dystysgrifau.

Mae templedi cofnodion randdirymiad (derogation) yn ogystal â thaflen gofnodion ar gael ar-lein: www.welshorganic.co.uk neu cysylltwch â'r swyddfa: **01970 636688**

Os oes gennych unrhyw gwestiwn yna mae croeso I chi gysylltu â'r swyddfa pob amser

Rydym wedi cynnig ambell tip defnyddiol er mwyn eich paratoi ar gyfer archwiliad organig. Nodwch, fodd bynnag, y bydd yr archwiliad yn cynnwys y cyfan o'r safonau organig.